**PWYLLGOR:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**DYDDIAD:** **5 MAWRTH 2012**
**TEITL:** **ADDASU POLISI TRWYDDEDU'R CYNGOR**
**PWRPAS:** **ER PENDERFYNIAD**
**AWDUR:** **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO**

<u>GWYBODAETH CEFNDIR</u>

Mae'n orfodol i awdurdodau trwyddedu 'gymryd sylw o ' ganllawiau 'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r canllawiau yn argymell y lefel dirprwyo mewn perthynas â rhai cyfrifoldebau trwyddedu o dan y Ddeddf. Gweler y rhain yn atodlen 1.

Fe fabwysiadwyd adolygiad o'r Polisi Trwyddedu yn Rhagfyr 2010. Mae pennod 12 o'r Polisi yn amlinellu i ba lefel Pwyllgor a swyddog y dylid dirprwyo cyfrifoldebau trwyddedu perthnasol. Dangosir y rhain yn Atodiad 2.

Nid yw'r trefniadau dirprwyo a amlinellir yn y Polisi yn cyd-fynd gydag argymhellion y Canllawiau yn yr ystyr y dylid dirprwyo rhai o'r cyfrifoldebau a gedwir gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i Is Bwyllgor .

O dan adran 10(1) o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, mae gan y Pwyllgor Trwyddedu'r awdurdod i ddirprwyo unrhyw gyfrifoldebau trwyddedu a weithredir i'r Is - Bwyllgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor .

<u>CYNNIG</u>

Argymhellir fod y trefniadau dirprwyo yn cael eu diwygio er mwyn cyd fynd ag argymhellion a wneir yn y Canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol .

Os derbynnir unrhyw gais lle mae sylwadau perthnasol wedi eu derbyn - fe fyddai mabwysiadu'r argymhelliad yn golygu fod Is - Bwyllgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor yn ystyried y cais; ac fe fyddai swyddogion yn parhau i gymeradwyo ceisiadau lle nad oes sylwadau wedi eu derbyn.

<u>ARGYMHELLIAD</u>

Fod y Pwyllgor yn dirprwyo ei gyfrifoldebau mewn perthynas â cheisiadau am drwydded, ceisiadau eraill, penderfyniadau a dyfarniadau i Is - Bwyllgorau Trwyddedu a sefydlwyd gan y Pwyllgor a swyddogion yn unol â Chanllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.